CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU

Panel Darparwyr
Coleg Llandrillo: Dydd Gwener, 24 Tachwedd 2006, 1.30

Cofnodion

1. Yn bresennol

Canolfan Arweiniol CiO Gogledd Cymru	Ifor Gruffydd
	Haydn Hughes
Prifysgol Cymru Bangor:	Elwyn Hughes
Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn:	Jim O' Rourke
Coleg Llandrillo:	Rhian McCarthy
Coleg Llysfasi:	Myfi Brier
	Dona Padan
Coleg Meirion-Dwyfor:	Jina Gwyrfai
Coleg Menai:	Ann Hughes
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr/Coleg Harlech:	Llinos Price
	Dafydd Rhys
NEWI:	Pam Evans-Hughes
Popeth Cymraeg:	Howard Edwards
	Verona Pritchard-Jones
	Frances Jones
	Ioan Talfryn
Coleg Garddwriaethol Cymru	Marion Simkin

Ymddiheuriadau

Coleg Glannau Dyfrdwy:	Non Lewis
Coleg Iâl:	Jeni Harris
Coleg Llandrillo	Ieuan Davies
Coleg Llysfasi	Gwenan Owain
Prifysgol Cymru Aberystwyth (sylwebydd):	Shirley Williams

2. **Y Ganolfan newydd**

Cafwyd cyflwyniad gan Ifor Gruffydd, Cyfarwyddwr Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru. Nododd mai cylch gorchwyl panel y darparwyr fyddai :

- Arwain ar faterion gweithredol ym maes CiO
- Arwain trafodaethau ar ddatblygiad y ddarpariaeth

- Codi unrhyw faterion perthnasol i sylw'r Ganolfan
- Cynnig argymhellion ar unrhyw faterion strategol i'r Grŵp Strategol

Nododd IG fod wyth o staff wedi cael/neu ar fin cael eu penodi. Byddai'r staff yma wedi eu lleoli ym Mangor yn bennaf gyda phresenoldeb yn Llanelwy hefyd. Nodwyd bod Hadyn Hughes wedi ei benodi yn Swyddog Hyfforddi ac Ansawdd ac i gychwyn ei swydd ar y 1af Rhagfyr. Yn ogystal mae tri aelod o'r staff gweinyddol wedi eu penodi, ynghyd â Swyddog Data. Nodwyd bod disgwyl cadarnhau penodiad y ddau Swyddog Datblygu yn fuan yn yr wythnos i ddod. Yn ogystal mae Swyddog Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol 2007 wedi ei benodi.

Nododd IG rai o flaenoriaethau'r Ganolfan newydd, gan gynnwys paratoi Cynllun Strategol cychwynnol erbyn diwedd mis Tachwedd 2006. Nodwyd y byddai cynllun strategol llawn yn cael ei gyflwyno erbyn Mis Mai 2007.

3. **Darpariaeth**

Cafwyd manylion gan y gwahanol ddarparwyr am eu darpariaeth gyfredol ac am eu cynlluniau ar gyfer Gwanwyn 2007.

Nodwyd bod rhaid i'r ddarpariaeth gael ei chydgynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau rhaglen gynhwysfawr, llwybrau dilyniant clir ac osgoi dyblygu. I'r perwyl hwn penderfynwyd rhannu'r rhanbarth yn dair ardal ar gyfer trefniadau ymarferol sef:

Môn a Gwynedd
Conwy a Dinbych
Fflint a Wrecsam

Bydd y swyddogion datblygu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r darparwyr i drefnu cyfarfodydd unigol i hwyluso cydgordio rhanbarthol.
Bydd y ddarpariaeth yn cael ei mapio'n fanwl o ran natur y cyrsiau, lleoliadau, amserau a lefelau, gan greu cronfa ddata gyflawn ar gyfer y rhanbarth.

Nodwyd pryder gan y darparwyr nad oedd cyllid ychwanegol i gael ar gyfer twf yn y maes.
Nodwyd bod pryderon ac angen trafodaeth bellach gyda phob sefydliad ynglŷn a ffioedd cyrsiau gan fod cymaint o amrywiaeth ar hyn o bryd.
Nodwyd y bod cyrsiau Saesneg tebyg i ESOL ayyb ar gael am ddim ac nad oedd hyn yn bod ar gyfer gwersi Cymraeg i Oedolion.
Nodwyd hefyd bod cyflogau tiwtoriaid yn amrywio'n fawr o un sefydliad i'r llall.

Cynigiodd IG y gellid dod i gytundeb daearyddol – falle fesul rhanbarth ynglŷn a Cymraeg yn y Gweithle ac y dylid ystyried nifer o ffactorau a trafod system deg a fyddai'n ateb gofynion y gweithleoedd.
Nododd IG y bydd rhaid i'r Ganolfan osod targedau o ran y ddarpariaeth CiO, ond nad oedd o'r farn bod hyn yn amserol ar hyn o bryd ac y bod angen ymchwilio'n ddyfnach i'r maes cyn gosod targedau

4. **Marchnata**

Nododd IG bod logo cenedlaethol newydd wedi ei ddylunio ond na fydd yn cael ei lansio tan fis Ebrill 2007. Nodwyd y byddai rhaid i bob darparwr sicrhau fod logo'r Ganolfan newydd yn cael ei gynnwys ar eu deunyddiau marchnata.

Trafodwyd rôl y Ganolfan o ran marchnata a chyhoeddusrwydd ochr yn ochr â chynlluniau'r darparwyr unigol. Nododd IG na fydd y Ganolfan newydd yn disodli na dyblygu gwaith marchnata'r darparwyr, ond yn hytrach yn ychwanegu ato, gan ganolbwyntio ar godi proffil CiO a chodi ymwybyddiaeth. Bydd eisiau trafod cynlluniau marchnata ymhellach gyda'r Grŵp Strategol.

Atgoffwyd y darparwyr am un o amodau cyllido AADGOS, sef bod rhaid defnyddio lefelau cenedlaethol CiO (Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd) wrth enwi a marchnata pob cwrs o hyn ymlaen.

Fe fydd ymgyrch hysbysebu ar y teledu tuag at diwedd Haf 2007. Fe fydd yn targedu S4C a HTV Cymru. Nodwyd bod y Cynulliad wedi penderfynu mai Learndirect fydd y pwynt cyswllt cenedlaethol canolog ar gyfer gwybodaeth am ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ac y bydd unrhyw alwadau i rif Llinell Cymraeg i Oedolion GALW (sy'n ymddangos ar lawer o ddeunydd cyhoeddusrwydd) yn cael eu trosglwyddo'n otomatig i Learndirect.

5. **Hyfforddiant**

Dosbarthwyd holiadur hyfforddiant gan HH. Bydd yr holiadur yn casglu data ar gyfer adnabod anghenion hyfforddi ac yn bwydo i mewn i gynllun hyfforddiant cynhwysfawr.
Cafwyd cyflwyniad gan HH ar gymhwyster hyfforddiant tiwtoriaid CiO.
Mae tri cham i'r gymhwyster:
Cam 1 - ar gyfer tiwtoriaid mynediad a sylfaen
Cam 2 – ar gyfer lefelau uwch
Cam 3 - ar gyfer tiwtoriaid llawn amser

Fe fydd yn bosib i diwtoriaid profiadol wneud cais am APEL os ydynt wedi bod yn dysgu ar lefelau mynediad a sylfaen am bedair blynedd ar gyfer Cam 1, ar lefelau uwch am bedair blynedd ar gyfer cam2, ac fel tiwtoriaid llawn amser am ddwy flynedd ar gyfer cam 3.
Mynegwyd pryder ynglŷn a chost y gymhwyster. Gwnaethpwyd argymhelliad cryf y dylid chwilio am fodd o noddi ffioedd tiwtoriaid sy'n awyddus i ymrestru ar y cwrs i ennill y cymhwyster.

Nododd HH bod rhaglen datblygu staff wedi cael ei pharatoi ar gyfer y tri mis nesa

- Emyr Davies i gynnig 3 sesiwn paratoi dosbarthiadau ar gyfer arholiadau Cam 1 a Cam 2 (11 a 12/1/2007)
- Cynhadledd 16 a 17 Chwefror ym Mangor neu Llandudno ar gyfer tiwtoriaid a tiwtoriaid drefnyddion a rheolwyr. (Rhaglen i'w threfnu)
- Wythnos o hyfforddiant Dad-Awgrymeg gan Ioan ym mis Mawrth
- Cyfres o sesiynau ym Mhrifysgol Bangor ar sawl agwedd ar reoli

Nodwyd bod yr hyfforddiant rhagarweiniol i ddarpar-diwtoriaid yn parhau i gael ei gynnig o dan adain Ysgol Dysgu Gydol Oes Prifysgol Cymru, Bangor. Dosbarthwyd enwau'r unigolion sy'n dilyn y cwrs hwnnw ar hyn o bryd i bob darparwr.

6. **Sicrhau ansawdd**

Bydd sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar draws y rhanbarth yn flaenoriaeth i'r ganolfan. Penderfynwyd sefydlu Is-banel Ansawdd gyda un cynrychiolydd o bob sefydliad gyda'r bwriad o safoni gweithdrefnau arsylwi tiwtoriaid, rhannu arferion da ac ymchwilio i bosibiliadau o gydweithio ar rai agweddau ar y gwaith.

7. **Targedau**

Mae'r Swyddog Data wedi cychwyn ar ei swydd, ond nid yw'r broses o osod targedau wedi'i sefydlu eto. Penderfynwyd cadw'r eitem hon fel eitem sefydlog ar yr agenda.

8. **Strwythur pwyllgorau**

Fel y nodwyd eisoes, penderfynwyd sefydlu tri Is-banel rhanbarthol er mwyn cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth. Byddai'n fuddiol gwahodd sefydliadau a mudiadau allanol sydd â chysylltiad â'r maes i fod yn aelodau o'r Is-banelau hynny, e.e. swyddogion iaith cynghorau sir, mentrau iaith, CYD. Hefyd penderfynwyd sefydlu is-bwyllgor sicrhau ansawdd.

Bydd yr Is-banelau hyn yn adrodd yn ôl i'r Panel Darparwyr. Bydd angen sicrhau llwybrau adrodd clir rhwng y Panel Darparwyr a Grŵp Strategol yr Uwch Reolwyr.

Bydd y Panel Darparwyr yn cwrdd unwaith y tymor
Bydd yr Is-baneli yn cwrdd yn ôl y galw ac yn cael eu cynnull gan y swyddogion datblygu
Swyddogion y Panel Darparwyr
Etholwyd Elwyn Hughes yn gadeirydd a Rhian McCarthy yn ysgrifennydd y Panel Darparwyr.

Enwebwyd Pam Evans-Hughes i gynrychioli'r Panel Darparwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Strategol.

9. **Dyddiad y cyfarfod nesa**

Dydd Gwener, 9 Mawrth 2007, 1.30, yng Ngholeg Llandrillo